Archwiliadau ansawdd cerdded a beicio

Gwybodaeth ar gyfer safleoedd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG)

Mawrth 2009

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Her Iechyd Cymru
Health Challenge Wales

YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT

Sustrans yw elusen drafnidiaeth gynaliadwy flaenaf y DU.

Ein gweledigaeth yw byd y bydd pobl yn dewis teithio mewn ffyrdd sydd o fudd i'w hiechyd a'r amgylchedd. Rydym yn gweithio ar atebion ymarferol, arloesol i'r heriau trafnidiaeth sy'n ein hwynebu ni i gyd. Sustrans yw'r elusen sy'n gyfrifol am y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol Gwobrwyedig, Llwybrau Diogel i'r Ysgol, Bike It, TravelSmart, Teithio Byw, Connect2 a Liveable Neighbourhoods, pob un yn brosiect sy'n newid ein byd fesul milltir.

Er mwyn darganfod rhagor ewch i www.sustrans.org.uk neu ffoniwch 0845 113 00 65

Sustrans Cymru
107 Stryd Bute
Caerdydd
CF10 5AD

Sustrans Cymru yn gweithio gyda'r GIG

Caiff Sustrans Cymru ei ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi safleoedd GIG mawr mewn hyrwyddo a gweithredu cyfleoedd teithio egniol ar gyfer staff, ymwelwyr a chleifion.

© Sustrans Gorffennaf 2009
Elusen Gofrestredig Rhif. 326550 (Cymru a Lloegr) SC039263 (Yr Alban)
Rhif Cofrestru TAW 41674065

Archwiliadau ansawdd cerdded a beicio ar safleoedd GIG

1. Rhagymadrodd

Fel rhan o'r cynllun teithio cynaliadwy, mae'n arfer da i gynnwys 'archwiliad ansawdd'. Y ffordd orau i wneud hynny yw ochr yn ochr ag archwiliad safle cyffredinol, gan fod tasgau'n cynnwys nid yn unig edrych ar gyfleusterau allweddol ar y safle, ond hefyd nodi sut y gellir eu gwella. Gall gwelliannau o'r fath gael effaith uniongyrchol ar y rhai sy'n dewis Teithio Egnïol (cerdded a beicio, ac integreiddio'r rhain gyda thrafnidiaeth gyhoeddus), a chynyddu cyfradd llwyddiant ymyriadau cysylltiedig, megis darpariaeth standiau beic a chawodydd. Dylai'r meysydd allweddol i'w harchwilio gynnwys cyffyrdd, gofodau gwyrdd/agored, prif lwybrau cerdded/beicio (yn cynnwys y llwybrau y mae'n well gan bobl eu defnyddio, waeth beth am yr arwyddion), a chyfnewidfeydd trafnidiaeth gyhoeddus, megis arosfannau bws.

Gall archwiliad ansawdd nodi enillion cost isel a digost cyflym yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer rhaglenni wedi eu hariannu a fydd yn gwella diogelwch a mwynhad holl ddefnyddwyr y safle. Felly gall yr archwiliadau hyn lywio proses gynllunio a gweithredu cynlluniau teithio, a chefnogi canfyddiadau a ddaw o arolygon staff/ ymwelwyr/ cleifion.

Mae'r ddogfen hon wedi ei datblygu i roi trosolwg cyffredinol o archwiliad beicio a cherdded. Er mwyn cynnal archwiliad safle-benodol efallai y byddech am ddefnyddio'r offer neu'r feddalwedd archwilio sydd ar gael ar y rhyngrwyd neu gyflogi ymgynghorwyr. Gweler Adran 10 am ragor o wybodaeth.

Dylai'r archwiliad ansawdd gynnwys rhai neu'r cyfan o'r canlynol (Nodwch y rhoddir ffocws ar archwiliadau cerdded a beicio. Ceir deunydd darllen pellach ar gyfer pob archwiliad ar ddiwedd y ddogfen):

2. Archwiliad cerdded

Mae'r archwiliad hwn yn adolygu ansawdd y llwybrau a'r ardaloedd i gerddwyr ar eich safle. Mae hyn hefyd yn cynnwys sicrhau bod eich safle yn hygyrch i BOB defnyddiwr. Mae'r ffactorau allweddol i arsylwi arnynt yn cynnwys:

- **ansawdd yr arwyneb** - *dadansoddi llwybrau, edrych ar beryglon baglu, arwynebau anwastad, ac ati*
- **goleuo** – *a oes goleuo digonol wedi ei ddarparu, ac ar waith ar yr amseroedd priodol?*
- **gwrthdaro â thraffig** - *a yw'r croesfannau wedi eu lleoli mewn mannau diogel ar gyfer ceir a cherddwyr, ac a oes arwyddion digonol ar gyfer pob math o ddefnyddwyr?*
- **cyfleusterau i gerddwyr**- *argaeledd a pha mor agos yw meinciau, arwyddion, ardaloedd â chysgod ac ati*
- **rhwystrau** - *a yw gwrthrychau/ dyluniad llwybrau yn achosi rhwystr? E.e. bolardau, cyrbau priodol wrth groesfannau neu lwybrau a ffafrir?*
- **glanhau** – *a yw'r llwybr yn lân ac yn rhydd o sbwriel?*
- **draeniad** - *a yw llwybrau yn glir o beryglon megis d r/rhew/malurion ffordd?*

3. Archwiliad beicio

A yw'r llwybrau beicio ar y safle yn annog pobl i feicio i'r gwaith/i ymweld â'r safle?

- **cydlyniad** – *a yw safon dylunio'r rhwydwaith beicio yn gyson ar ei hyd? h.y. lonydd wedi eu paentio'n goch, arwyddion safonol, arwyddion yn eu lle ac ati*
- **uniongyrchedd** - *a yw'r llwybrau sydd wedi eu harwyddo mor uniongyrchol â phosibl ac ar lwybr a ffafrir gan feicwyr?*
- **yn atyniadol** - *a yw'r llwybrau wedi eu goleuo a'u harwyddo'n dda gydag amgylchoedd sy'n esthetig bleserus?*
- **diogelwch** - *a yw llwybrau wedi eu dylunio er mwyn lleihau'r perygl o wrthdrawiadau gyda defnyddwyr eraill y ffordd a cherddwyr? A all yr Awdurdod Lleol gynorthwyo i wella diogelwch ar gyfer beicwyr ar ffyrdd dynesu i'r safle?*
- **cyfforddusrwydd** - *a oes wyneb llyfn wedi ei gynnal a'i gadw'n dda a llethrau graddol i'r ffyrdd, a nodweddion sy'n osgoi symudiadau cymhleth ac ymyriadau sydyn?*

4. Archwiliad trafnidiaeth gyhoeddus

A yw'r amgylchedd a ddarperir ar gyfer defnyddwyr trafnidiaeth gyhoeddus (bws, trên, tacsi) yn annog pobl i ddefnyddio'r gwasanaethau? A oes darpariaeth ar gyfer:

- **tywydd drwg** – *a oes cawodydd? A oes mannau cyswllt? Beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer amodau tywydd eithafol?*
- **cysylltiadau mewn argyfwng** – *a oes mannau cyswllt mewn argyfwng ar gael wrth y cysgodfannau? A oes arwyddion clir ar gyfer y rhain?*
- **amseroedd bws/trên** - *a ddarperir gwybodaeth amser gwirioneddol ymhob arosfan/cysgod? A ddarperir copïau caled hefyd er mwyn cynllunio siwrneiau?*
- **goleuo digonol** - *a yw'r llwybrau i gysgodfannau/arosfannau wedi eu goleuo'n dda drwy gydol y flwyddyn?*
- **ardaloedd diogel** - *a roddwyd ystyriaeth i ddiogelwch personol wrth leoli'r arosfannau? A ddiogelir cerddwyr rhag sefyllfaoedd anniogel?*
- **arwyddion clir** - *a yw'r arwyddion e.e. ar gyfer y dderbynfa a man terfyn taith bws wedi eu harddangos yn glir i bawb?*

- **darpariaeth amgylchedd sy'n atyniadol i'r llygad?** *Ymholiad gwrthrychol; pa gamau ellid eu cymryd i wneud yr amgylchedd yn fwy atyniadol ? e.e. gosod celf gyhoeddus, cynyddu nifer y planhigion, ac ati .*

5. Archwiliad ansawdd gweledol

Sut allwch chi wella effaith weledol eich safle i'w wneud yn fwy apelgar i bobl sy'n cerdded a beicio drwyddo (ar gyfer dibenion trafnidiaeth a gwaith/ymweld)?

6. Adolygiad o sut y defnyddir y strydoedd gan 'gymuned' y gweithle

A ydych chi'n gwybod lle mae'r llwybrau dymuniadwy allweddol (y llwybrau a ddefnyddir amlaf a'r hawsaf) ar eich safle? A ellir mapio'r rhain ac yna eu defnyddio i lywio'r rhaglen gwelliannau?

7. Archwiliad diogelwch y ffyrdd (yn cynnwys asesiad risg)

A yw cerddwyr a beicwyr yn ddiogel ar eich safle? Sut y gellir gwella'r prif groesfannau, llwybrau a chyffyrdd er mwyn cynnal llif traffig ond hefyd sicrhau diogelwch pawb?

8. Archwiliad mynediad

A yw mannau mynediad ar y safle o fudd i holl ddefnyddwyr y safle; car, cerddwyr, defnyddwyr trafnidiaeth gyhoeddus a beicwyr? H.y. a allai agor mynedfa yng nghefn y safle annog rhagor o bobl i gerdded neu feicio? A yw'r canolbwynt trafnidiaeth gyhoeddus o fewn pellter hawdd i'w gerdded o fynedfa'r safle?

9. Ymyriadau

Yn dilyn archwiliad ansawdd gallai'r canlynol fod yn atebion addas ar gyfer gwella'r amgylchedd teithio egnïol (nid yw hon yn rhestr gyflawn):

- arwyddion sylfaenol ar gyfer cyrchfannau (yn cynnwys cyrchfan, pellter ac amseroedd) a nodweddion eglurder (h.y. gwneud yn si r fod holl ddefnyddwyr y ffordd a'r llwybr yn ymwybodol o eraill) ar gyfer cerdded a beicio
- gwella ac uwchraddio parcio beiciau. Gallai hyn gynnwys storio dan gysgod, mewn safle mwy gweladwy, hawdd cael mynediad iddo a diogel, a dan oruchwyliaeth teledu cylch cyfyng
- gweithio mewn partneriaeth gyda 'gr p lechyd a Lles' Ymddiriedolaeth neu'r safle i ddatblygu cynlluniau megis 'Campfeydd Gwyrdd' neu 'Tir lechyd', a allai roi'r cyfle i staff dreulio amser yn yr awyr agored e.e. garddio - gwella'r amgylchedd lleol a chynyddu gweithgaredd corfforol. Bydd hyn hefyd yn cyfrannu tuag at asesiadau'r Safon lechyd Gorfforaethol, a hefyd yn gwella effaith weledol y safle
- gosod pwyntiau gwybodaeth o gwmpas y safle ac mewn canlobwynt trafnidiaeth allweddol
- argymell arwyneb lliw er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o feicwyr a darparu canfyddiad o barth gyda thraffig wedi'i dawelu ehangach
- cynnydd yn y nifer o bwyntiau mynediad i'r safle

- datblygu mapiau i ddangos cyfleusterau cerdded/ beicio/ trafnidiaeth gyhoeddus a llwybrau
- darpariaeth lonydd beicio cynghorol ar ffyrdd lleol

10. Darllen pellach/ Llyfryddiaeth

Healthier worksite initiative: Audit Tool – Canolfannau ar gyfer Rheoli ac Atal Heintiau: http://www.cdc.gov/nccdphp/dnpa/hwi/toolkits/walkability/Walkability_Audit_Tool.pdf

Guidelines for Cycle Audit and Cycle Review (2005)- Yr Adran Drafnidiaeth: www.dft.gov.uk/pgr/roads/tpm/tal/cyclefacilities/cycleauditandreview?page=1

Manual for Streets (2007) - Yr Adran Drafnidiaeth www.dft.gov.uk/pgr/sustainable/manforstreets/

Design manual for roads and bridges; Non-motorised user audits (2005) Standards for Highways: **www.standardsforhighways.co.uk/dmrb/vol5/section2/hd4205.pdf**